# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lynda James | Adran Etholiadol: | Pennard |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

**Materion etholaeth cyffredinol -** Ymdriniais â nifer o broblemau megis gwasanaethau bws, tyllau yn y ffordd, llyncdyllau, casgliadau sbwriel, sbwriel a llifogydd etc. Hefyd, darperais gyngor a chefnogaeth ar nifer o faterion unigol a throsglwyddo cyfeiriadau ar amrywiaeth eang o bynciau. Rwyf bob amser ar gael gartref, dros y ffôn neu drwy e-bost, a byddaf yn ymweld ag etholwyr yn eu cartrefi os yw'n fwy cyfleus iddynt.
**Cymorthfeydd misol –** Cynhaliais gymorthfeydd bob mis yn Llyfrgell Pennard a Marchnad Cynnyrch Pennard. [Y dyddiadau ac amseroedd erbyn hyn yw ail ddydd Sadwrn a dydd Sul pob mis rhwng 10.30am a 12.00pm].
**Cynllunio –** Adolygais yr holl geisiadau cynllunio ar gyfer y ward ac ymwelais â'r rhan fwyaf o'r safleoedd. Trefnais i'r pwyllgor ystyried ceisiadau dadleuol a chysylltais â swyddogion gorfodi pan ystyriwyd bod angen.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| **CYFFREDINOL** | **21** | **/** | **27** | **78** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Llywodraethu Ysgolion | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Cadw Coed | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Safon Ansawdd Tai Cymru | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **21** | **/** | **23** | **91** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Roeddwn hefyd yn aelod o nifer o baneli a gweithgorau ymchwilio craffu (fel a amlinellwyd uchod yn Adran 2).

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

**Llyfrgell -** Trefnais gyfarfodydd i frwydro yn erbyn cau Llyfrgell Pennard a chadw'r gwasanaeth ardderchog a arweinir gan lyfrgellydd. Gweithiais gyda Chyfeillion Llyfrgell

Pennard i ddylunio ac ennill arian i ailadeiladu adeiladau presennol y llyfrgell a'i gwneud yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Hefyd i gaffael prydles ar gyfer y tir gan Gyngor Abertawe.
**Llywodraethwr Ysgol** - Cymerais ran weithgar yn Ysgol Gynradd Pennard ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt fel llywodraethwr ysgol. Hyrwyddais ymgyrch ymwybyddiaeth cyflymder yn y pentrefi, yn enwedig o gwmpas yr ysgol gynradd. Roedd hyn ar y cyd â chyngor yr ysgol.
**CDLl** Un o'r materion mwyaf arwyddocaol y parheais i fod yn rhan ohono oedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'i effaith bosibl ar ein cymuned. Cynhaliais gyfarfod cyhoeddus, y daeth llawer o bobl iddo, i roi'r diweddaraf i breswylwyr ar broses yr CDLl.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Ymgymerais â'r hyfforddiant canlynol:
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
25/02/2016 - Pwyllgor Cynllunio - Hawliau Tramwy
13/11/2015 – Cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal yn ein Hysgolion (Llywodraethwyr)
09/11/2015 – Amddiffyn Plant (Llywodraethwyr)
05/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
22/10/2015 – Anghenion Addysgol Arbennig (Llywodraethwyr)
16/07/2015 – Ymwybyddiaeth Gwrthgaethwasiaeth a Masnachu Pobl

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Lluniais gylchlythyrau anwleidyddol rheolaidd i'r holl breswylwyr a oedd yn cynnwys pynciau sy'n berthnasol i Ward Pennard ac yr wy'n credu y byddent o ddiddordeb. Rwyf bob amser wedi pleidleisio'n unol â'm cydwybod a'r hyn rwy'n credu sydd orau i'm hetholwyr.
**Cyfarfodydd PACT** – Euthum i gyfarfodydd yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a drefnwyd gan Warchod y Gymdogaeth Pennard gyda'r swyddog heddlu lleol a swyddog cymorth cymunedol yr heddlu (PCSO), yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd Gwarchod y Gymdogaeth Pennard a Kittle. Mae'r cyfarfodydd PACT wedi cynnwys materion penodol megis y gwasanaethau bws lleol, gyrru'n rhy gyflym, croesfannau cerddwyr a gwartheg crwydr y gwahoddwyd y bobl berthnasol iddynt.
**Cyngor Cymuned Pennard -** Rwyf wedi mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y cyngor cymuned a chyflwynais faterion a gododd yn y fforwm. Fel aelod o'r cyngor cymuned, euthum ati i arwain llawer o'r prosiectau cymunedol a rheoli'r Farchnad Cynnyrch a Chrefftau fisol ar gyfer y cyngor.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 25.04.2016 |